Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Pentrebane Road
Y Tyllgoed
CF5 3PZ

09/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2026

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar 24 a 25 Mehefin 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd disgyblion
- Siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Craffu ar sampl o waith disgyblion
- Craffu ar sampl fach o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu gwaith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor effeithiol yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn braf gweld bod yr ysgol wedi symleiddio a mireinio ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn sicrhau ffocws cliriach ar y blaenoriaethau pwysicaf. Mae'n ymddangos bod y calendr hunanwerthuso cynhwysfawr yn darparu trefn glir ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso drwy gydol y flwyddyn academaidd i helpu arweinwyr gael darlun cyfredol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae trefniadau rheolaeth llinell cyson ac agenda glir ar gyfer trafodaethau yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

cryfhau atebolrwydd ac yn sicrhau bod canfyddiadau prosesau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio'n addas.

Clywsom am yr ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso a ddefnyddir gan yr ysgol, gan gynnwys craffu ar waith, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chanfod barn disgyblion. Mae'n ymddangos bod arweinwyr canol yn cael cyfleoedd buddiol i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ac yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'n ymddangos bod diwylliant cadarnhaol o gydweithio wedi datblygu, gyda'r rhan fwyaf o arweinwyr yn gwerthfawrogi cyfleoedd i weithio gyda arweinwyr o ysgolion uwchradd lleol. Mae hyn yn cryfhau eu gallu i werthuso ansawdd addysgu a dysgu. Clywsom hefyd fod cysylltiad addas rhwng blaenoriaethau'r cynllun gwella a'r rhaglen dysgu proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cael cymorth amserol i weithredu'r gwelliannau a nodwyd.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw prosesau gwella'r ysgol yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn ôl eu heffaith ar ddysgu'r disgyblion?
- A yw arweinwyr ar bob lefel yn ystyried medrau disgyblion yn ddigon manwl a miniog wrth iddynt arsylwi gwersi a chraffu ar waith?

## Sut mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol?

Yn ystod yr ymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae arweinwyr wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r datblygiadau yn y maes darllen wedi cael eu llywio gan, a'u seilio ar, ganfyddiadau staff o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd, ac wedi deillio'n bennaf o'r 'crwydrau dysgu medrau'. Clywsom sut mae staff yn hybu darllen a therminoleg er mwyn sicrhau cynnydd yn nefnydd y disgyblion o dermau Cymraeg yn eu trafodaethau a'u gwaith. Roedd yn ddiddorol clywed am y ffordd mae arweinwr yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd angen cymorth i ddatblygu eu medrau darllen ac yn darparu ymyraethau ar gyfer gwella hyder disgyblion wrth ddarllen. Rydym yn cytuno gyda'r ysgol bod angen cydlynu'r ymyraethau hyn yn brydlon, a thracio cynnydd disgyblion yn gyson.

O'r sampl o waith a welwyd, a'r gwersi y gwnaethon ni eu harsylwi, gwelsom fod y gwaith i ddatblygu medrau sylfaenol darllen eisoes wedi gwreiddio mewn llawer o bynciau y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae mentrau fel 'Rheoli'r Gêm' wedi codi hyder disgyblion i gyfrannu yn y dosbarth, gan amrywio tôn a goslef yn bwrpasol wrth ddarllen ar goedd. Mae adrannau wedi gwneud defnydd o'r 'tablau geirfa' er mwyn cynorthwyo disgyblion i

ddeall ystyr geiriau anghyfarwydd. Fodd bynnag, rydym yn cytuno gyda'r ysgol bod angen rhoi mwy o sylw i uwch fedrau darllen disgyblion. Braf oedd clywed y disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am ymgais yr ysgol i hybu darllen, yn enwedig trwy'r cynllun 'Ehangu gorwelion', ble mae'r tiwtoriaid personol yn darllen ar y cyd â nhw.

Clywsom sut mae athrawon wedi elwa o hyfforddiant ac adnoddau a ddarparwyd sy'n cynnig strategaethau i gefnogi disgyblion i wella eu safonau llafar. Mae'r strategaethau'n cynnwys gweithgareddau amrywiol i gyfoethogi geirfa a matiau trafod sydd wedi cael eu creu er mwyn datblygu llafaredd mewn modd mwy strwythuredig o fewn y gwersi. Yn ogystal, mae staff wedi elwa o gyflwyniadau a chyfleoedd i rannu arferion da yn y sesiynau 'Clwb Brecwast' ar foreau dydd Gwener. Diddorol oedd clywed am y triawdau dysgu ble mae staff wedi cael cyfleoedd i ffocysu'n benodol ar wella agweddau ar lythrennedd. Clywsom am waith yr ysgol gyda'i ysgolion partner i ddatblygu'r medrau a rhoi sylw i'r camau cynnydd er mwyn er mwyn cysoni arferion a hwyluso'r trosglwyddo i ddisgyblion rhwng Blynyddoedd 6 a 7.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gall arweinwyr sicrhau bod gan bob adran ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb i ddatblygu agweddau perthnasol ar lythrennedd, a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wneud hynny?

Diolch eto am eich holl gymorth wrth gynllunio a threfnu ein hymweliad. Dymunwn yn dda i chi gyda'ch datblygiadau yn y dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr - Estyn

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro